OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 4002

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

**Sefydlu fforwm**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i awdurdod penodi sefydlu fforwm neu fforymau ar gyfer yr ardal gyfan y mae'n awdurdod penodi iddi.

(2) Gall awdurdod penodi naill ai sefydlu un fforwm ar gyfer yr holl ardal y mae'n awdurdod penodi iddi neu, fel arall, nifer o fforymau, a phob un ar gyfer rhan o'r ardal y mae'n awdurdod penodi iddi fel y gwêl yn dda.

(3) Nid yw'r ddyletswydd a osodir ar awdurdod penodi gan baragraff (1) yn gymwys i'r ardal y mae'n awdurdod penodi ar ei chyfer neu i ran o'r ardal honno os oes cyfarwyddyd mewn grym mewn perthynas â'r ardal neu'r rhan honno o'r ardal wedi'i roi gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 94(8) o'r Ddeddf.

(4) Rhaid i'r awdurdod penodi gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) o fewn un flwyddyn galendr o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(5) Gall awdurdod penodi, mewn perthynas ag unrhyw ardal y mae'n awdurdod penodi ar ei chyfer neu ran o'r ardal honno, gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) drwy benodi fforwm ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau penodi eraill, yn unol ag unrhyw drefniadau y bydd yn eu gwneud gydag awdurdod neu awdurdodau penodi eraill o'r fath, mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys yr ardal honno neu ran o'r ardal honno.

(6) Os bydd yr awdurdod penodi o'r farn ei bod yn briodol sefydlu fforwm ar gyfer rhan o'i ardal, rhaid iddo, wrth ystyried yr ardal y mae'r fforwm i'w chynnwys, ymgynghori ag unrhyw awdurdodau lleol a chyrff eraill y gwêl yn dda.